## Ap Caredig: Cymwynaswr Cerdd a Anghofiwyd


*(Parhad o'r dudalen flaen)*

gyhoeddwyd yn 1935.

Y ffeithiau moel yn hanes Edward Jenkins a adroddir gan D.J. Evans yw ei fod wedi ei eni yn y flwyddyn 1836 yn Nhroedrhiwglascrug – 'nid y tŷ presennol... ond yr hen dŷ', ychwanegai – yn sefyll 'ar ymyl y ffordd sy'n arwain i lawr i Glanrafon Rheidol', a'r tŷ hwnnw oedd 'Bwthyn bach melyn fy nhad' yr hiraethai'r prydydd amdano yn ei gân, ac yntau ar y pryd, mae'n debyg, yn alltud o Geredigion, ac o Gymru hefyd o ran hynny.

O 1853 hyd 1860 yr oedd Edward Jenkins yn Aberystwyth, cyn symud i Fanceinion, ac yna i'r Amwythig, lle y treuliodd bum mlynedd. Yna, yn Ebrill 1866, symudodd i Lundain, 'i ofalu am Y Genhadaeth Fethodistaidd Gymreig'. Rhyw dair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach, sefydlwyd Gwesty Gwalia, Llundain, ac yna yn 1889 Westy Gwalia, Llandrindod, gydag ef yn gwasanaethu fel Rheolwr Gyfarwyddwr y naill westy a'r llall. Mewn portread ohono yn rhifyn Mawrth 1912 o'r *Cerddor*, pwysleisir nad oedd yn cael ei ystyried gan ei gyfoedion yn gerddor fel y cyfryw, ond nad oedd neb wedi gwneud cymaint ag ef i helpu cantorion a chyfansoddwyr ei genedl.

O dan ei gronglwyd ef yng Ngwesty Gwalia yr arhosai rhai o gerddorion ieuanc blaenllaw y genedl, megis R. S. Hughes a Lucas Williams a myfyrwyr eraill, yn ystod y cyfnod y buont yn astudio cerddoriaeth yn Llundain; bu'n gefn i amryw ohonynt yn ystod dyddiau blin pan oedd llawer o bethau a ystyrid yn angenrheidiol gan fyfyriwr i bwrpas ei waith yn ddrud, ac arian yn brin. Nid R. S. Hughes oedd un o fyfyrwyr mwyaf gweithgar yr Academi Gerdd Frenhinol pan aeth gyntaf i Lundain, ac y mae'n amheus iawn a fyddai wedi datblygu fel y gwnaeth, yn un o bianyddion ac un o gyfansoddwyr mwyaf blaenllaw Cymru, yn ei ddydd, onibai am symbyliad a chefnogaeth dadol


THE GWALIA

Book of Praise & Song

FOR THE USE OF VISITORS.

GWALIA HOTEL, LIMITED,
LLANDRINDOD WELLS.

PUBLISHED BY EDWARD JENKINS.

*Wyneb-ddalen: The Gwalia Book of Praise and Song.*

Edward Jenkins, a oedd yn ŵr tuag ugain mlynedd yn hŷn nag ef, ac yn aeddfetach gweithiwr yn y winllan gerdd.

Llafuriai'r prydydd hefyd ym mywyd Cymry Llundain, gan chwarae rhan flaenllaw yng ngweithgarwch yr eisteddfod, heblaw trefnu cyngherddau o gyfanweithiau gan gyfansoddwyr Cymreig megis Joseph Parry, David Jenkins a D. Emlyn Evans. Yng Ngwesty Gwalia, Llundain hefyd yr ysgrifennodd rhai o'r cyfansoddwyr eu gweithiau gorau, megis R. S. Hughes a arbenigodd mewn llunio caneuon a chan fod Edward Jenkins yn gyfarwydd â chefndir teuluol y gŵr hwnnw yn Aberystwyth, fe wyddai'n well na neb am ragoriaethau (a gwendidau) y cerddor ieuanc!

Yr un fu cefnogaeth a nawdd Edward Jenkins i gerddorion ei genedl ar ôl symud i Landrindod, a byddai'n cael ei ddweud fod cenhedlaeth gyfan o'r prif gantorion a'r cerddorion yn ddyledus iddo ef a'i briod am eu lletygarwch, a chymwynasau a gyflawnwyd yn y dirgel. Yn ystod ei gyfnod yn Gwalia, Llandrindod, cyflawnodd hefyd orchwyl bur anarferol, trwy gyhoeddi yn 1899 – yn y ddau nodiant – gasgliad o donau ac emynau ac alawon cenedlaethol y genedl at wasanaeth y rhai a fyddai'n aros yn ei westy. Llwyddodd i sicrhau gwasanaeth D. Emlyn Evans i olygu *The Gwalia Book of Praise and Song*, a chwmni Novello i'w argraffu.

A dyfynnu awdur *Hanes Capel Seion*, gŵr oedd Edward Jenkins 'yr oedd ei gariad at Gymru a'i phrydferthwch a'i thraddodiadau yn angerddol, a'i gartref yn noddfa i bopeth Cymreig'. Mae ei 'Atgofion am gerddorion a cherddoriaeth (Gymreig) yn Llundain' a ymddangosodd yn rhifynnau Ebrill a Mai 1913 o'r *Cerddor* yn agoriad llygad i'r sawl sy'n ymddiddori yn hanes cerddoriaeth y genedl, yn enwedig y rhai hynny sydd â diddordeb arbennig yn y cyfnod 1860-90. A go brin y gellir darllen yr 'Atgofion' heb ar yr un pryd resynu ein bod fel cenedl yn aml yn gallu anghofio enwau rhai o'n cymwynaswyr ym myd cerdd a chân, ac mor ddibris o'u cyfraniadau mewn cyfnod pan oedd manteision yn brin, a safonau'r gelfyddyd gerddorol yn gymharol isel.

Llwyddodd Edward Jenkins, a fu farw yn 1925, i wneud mwy mewn gwirionedd na hyrwyddo'r gân Gymraeg ar ei thaith urddasol; bu'n ffyddlon i gerddorion ac i gerddoriaeth ei genedl mewn cyfnod pan oedd gwir angen am i rywun noddi'r gelfyddyd.


*Edward Jenkins a'i wraig y tu allan i Westy Gwalia, Llandrindod, ar achlysur eu Priodas Aur ym 1917.*

### Cywiriad

- Gadawyd llun o blât arch allan o erthygl Rhiannon Davies Jones 'Hanes Plât Arch Bronfair' a ymddangosodd yn *Y Casglwr* diwethaf ar dudalen 2.
- Yn yr Ôl Nodyn ar ddiwedd yr erthygl ar dudalen 18 dylid darllen *...chwaer fy nhad, o Ben-dre Plwyf Llangwm...*
- Dylai llythyr Derwyn Jones ar dudalen olaf rhifyn Nadolig *Y Casglwr* ddarllen... Mab y meddyg, sef Gwyn Pari Huws...


*Plât Arch Bronfair*


*Mair a Mathonwy gyda Gwyn, mab eu hen gyfaill Dr Gwilym Pari Huws yng Ngarthewin.*